

Uned 2: Lefel A Iechyd a Gofal Cymdeithasol

2.2.3 Nodweddion tebyg a gwahaniaethau o ran y ddarpariaeth yng Nghymru a'r ddarpariaeth mewn rhannau eraill o'r DU

CYMRU

Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth yng Nghymru yw **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** a **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Sut y caiff GIG (Cymru) ei drefnu?

Mae GIG (Cymru) wedi'i drefnu'n saith bwrdd iechyd lleol. Mae gan y rhan fwyaf ohonyn nhw (heblaw Powys) ysbyty dosbarth sy'n comisiynu ac yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i'w hardal leol. Mae pob bwrdd iechyd yn annibynnol ac yn gwneud penderfyniadau am ddarpariaeth ar sail anghenion iechyd lleol. Caiff yr Alban ei threfnu yn yr un ffordd â Chymru.

Ymddiriedolaethau: Yn ogystal â'r Byrddau Iechyd Lleol, mae tair Ymddiriedolaeth y GIG (Cymru) –Ymddiriedolaeth Ambiwylans Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Felindre (gofal canser) a Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Pwy sy'n gyfrifol am fonitro ansawdd yn GIG (Cymru)? Mae **Uned Gyflenwi GIG (Cymru)** yn monitro ac yn rheoli perfformiad ac ansawdd yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau. Caiff GIG (Cymru) ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Mae **1000 o Fwydau Cymru** yn anelu at wella gofal person-ganolog cynaliadwy, gan wella ansawdd, capasiti a galluedd yn y GIG yng Nghymru. Y ddeddfwriaeth ategol yw **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016** a **fframwaith Safonau Iechyd a Gofal Cymru 2015**.

Systemau unioni camau: mae Corff Llais y Dinesydd a Chynghorau Iechyd Cymuned yn cynrychioli safbwyntiau pobl ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Systemau cynllunio: Mae Cymru yn gweithredu mewn dull sydd yn blaenoriaethau cynllunio wrth roi at ei gilydd cynlluniau tymor canolig integredig. Caiff cynlluniau tymor hwy (10 mlynedd) eu deddfu drwy **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** a **fframwaith Cymru Iachach**.

Gweithio mewn partneriaeth: Mae **Gofal Iechyd Darbodus (Cymru)** yn canolbwyntio ar alluogi cleifion i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Mae'n ddefnyddio trefniadau integredig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth fel sail i hyn.

Gwahaniaethau eraill: Presgripsiynau am ddim yng Nghymru, cynllun **Meddyg Awyr** (trosglwyddo cleifion â salwch/anafiadau difrifol i'r ysbyty yn gyflymach drwy'r awyr neu gan ddefnyddio ceir cyflym; timau gofal critigol yn rhoi triniaeth i gleifion yn y fan a'r lle, gan gynnwys triniaeth gwaed a phlasma), menter **1000 o Fwydau** (achub mwy o fywydau cleifion canser drwy nodi achosion a'u hatgyfeirio'n gyflym, lleihau heintiau a lleihau cymhlethdodau llawfeddygol). Mae polisi codi tâl yn ôl disgresiwn am ofal personol ar waith yng Nghymru yn achos gwasanaethau'r cyngor nad ydyn nhw'n cael eu darparu am ddim. Gellir defnyddio'r cynllun taliadau uniongyrchol ym mhob rhan o'r DU.

RHANNAU ERAILL O'R DU

Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth yn Lloegr yw **Deddf Gofal 2014** a **Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012**

Sut y caiff GIG Lloegr ei drefnu?

Yn sgil Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, mae tua 200 o **Grwpiau Comisiynu Clinigol** sy'n nodi anghenion iechyd lleol ac yn prynu gwasanaethau. Mae'r rhain yn amrywio o wasanaethau meddygon teulu i ddarpariaeth gan y 3^{ydd} sector. Mae gan rai awdurdodau iechyd lleol gyfrifoldeb datganoledig dros faterion iechyd lleol. Yng Ngogledd Iwerddon, ceir **Gweithrediaeth Gwasanaeth Iechyd** unigol.

Ymddiriedolaethau: Mae 84 o ymddiriedolaethau sylfaen ac 17 o ymddiriedolaethau arbenigol aciwt yn rhan o GIG Lloegr. Mae gan yr ymddiriedolaethau hyn ddylanwad lleol cryfach.

Pwy sy'n gyfrifol am fonitro ansawdd yn y GIG (Lloegr)? Mae'r **Comisiwn Ansawdd Gofal** yn arolygu ansawdd y gofal a ddarperir yn y GIG (Lloegr), ynghyd ag **NHS Improvement** sy'n goruchwyllo'r ymddiriedolaethau. Ceir mwy o ymyriadau yn Lloegr nag a geir yng Nghymru. **Y Gweithlu Iechyd** sy'n rheoleiddio ansawdd yn yr Alban a'r **Awdurdod Rheoleiddio a Gwella** sy'n gyfrifol am wneud hynny yng Ngogledd Iwerddon.

Systemau unioni camau: Mae Healthwatch (Lloegr), Cyngor Iechyd yr Alban (Yr Alban), y Cyngor Cleifion a Chleientiaid (Gogledd Iwerddon) yn cynrychioli safbwyntiau pobl.

Systemau cynllunio: Mae Lloegr yn defnyddio system ar sail marchnad i ariannu gwasanaethau. Mae **Rhagolygon 5 Mlynedd y GIG 2014** yn canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer iechyd ataliol ac er mwyn rhoi mwy o reolaeth i gleifion dros eu gofal eu hunain, ynghyd â modelau ar gyfer gofal a gwasanaethau cydgysylltiedig.

Gweithio mewn partneriaeth: Mae **partneriaethau trawsnewid cynaliadwy** yn anelu at atgyfnerthu gwasanaethau cymunedol a'u hintegreiddio yn seiliedig ar anghenion y claf. Mae hyn yn golygu bod y systemau gofal yn fwy atebol.

Gwahaniaethau eraill: Dewis Cleifion – mae gan gleifion fwy o ddewis o ran y math o driniaeth y byddent yn eu derbyn a'r math o ysbyty y byddent yn cael triniaeth ynddi (gan gynnwys gofal y GIG mewn ysbytai preifat). Mae rhai **cyffuriau newydd** ar gael yn haws yn Lloegr na Chymru. Mae gan yr Alban bolisi **dim** tâl am ofal personol tra mae Gogledd Iwerddon yn codi tâl am ofal personol i bobl dros 75 oed. Gellir defnyddio'r cynllun taliadau uniongyrchol ym mhob rhan o'r DU.